# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 22 Mai 2023** |
| Amser: | **10.30 - 12.10** |

## Cofnodion: SC(6)2023(4)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Gw. Anrh. Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Rhun ap Iorwerth AS**<br>**Janet Finch-Saunders AS**<br>**Ken Skates AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Simon Hart, Pennaeth dros dro y Gwasanaethau Ariannol**<br>**Nerys Evans, Pennaeth y Gwasanaeth, Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau**<br>**Leanne Baker, Prif Swyddog Pobl dros dro**<br>**Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol, Head of the Legal Service**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.a Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

### 1.b Datgan buddiannau

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### 1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 27 Mawrth.

## 2 Ffyrdd o Weithio – Opsiynau strategol ar gyfer prosiect Bae 2032

Cafodd y Comisiynwyr ddiweddariad ar gyngor proffesiynol cychwynnol ynghylch opsiynau hyfyw sicrhau llety sy'n diwallu anghenion hirdymor y Senedd a'r Comisiwn. Roedd y cyngor yn seiliedig ar yr anghenion a'r gofynion drafft y cytunwyd arnynt ym mis Rhagfyr 2022.

Trafododd y Comisiynwyr arwyddocâd ystyriaethau datblygu cynaliadwy a chyfle cyfartal ynghyd â phwysigrwydd cael safbwynt hirdymor ar werth i bwrs y wlad.

Cytunodd y Comisiynwyr yn unfrydol y dylai swyddogion fwrw ymlaen â'r opsiynau prosiect ar y rhestr fer a bwrw ymlaen â drafftio cam cyntaf yr achos busnes ar gyfer prosiect Bae 2032 (yr Achos Amlinellol Strategol) ar sail y cyngor a ddarparwyd.

Cytunodd y Comisiynwyr i gael diweddariad yng nghyfarfod mis Gorffennaf, ynghylch cynnydd o ran archwilio'r holl opsiynau.

## 3 Cyllideb Ddrafft 2024-25

Ystyriodd y Comisiynwyr nifer o faterion a oedd yn debygol o effeithio ar gyllid y Comisiwn yn ystod 2024-25 a rhoi cyfarwyddyd y dylid datblygu cynigion yn y meysydd hyn fel rhan o gyllideb ddrafft 2024-25. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Diwygio'r Senedd
- Rhaglen Ffyrdd o Weithio (rhagamcanion manwl)
- Effeithiau Strategaeth Gyflogau'r Comisiwn ar y gyllideb.
- Ystyriaethau nad ydynt yn ymwneud â thâl.

Trafododd y Comisiynwyr yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu mewn amgylchedd lle mae arian yn dynn, gyda dewisiadau anodd yn gorfod cael eu gwneud, a chydbwyso'r angen i ddarparu'r gwasanaethau presennol, bodloni rhwymedigaethau cytundebol, ac ymateb i ofynion newydd. Cyfeiriwyd at sefyllfa gadarnhaol barhaus y Comisiwn o wahardd diswyddiadau gorfodol.

Cytunwyd i ystyried y gyllideb ddrafft ochr yn ochr â'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig drafft, gwaith a fyddai'n dwyn ynghyd Gynlluniau Tymor Canolig Ariannol a'r Gweithlu, fel rhan o gyflawni'r amserlenni sy'n ofynnol gan y Rheolau Sefydlog.

Nododd y Comisiynwyr hefyd y byddai unrhyw effaith gyllidebol o ran amcangyfrif costau ynni yn y dyfodol; adolygu cyllidebau ystadau, TGCh a chronfeydd prosiect; unrhyw newidiadau i gostau cyfraniadau pensiwn y cyflogwr; a'r adolygiad blynyddol o Gostau Penderfyniad yn cael eu nodi yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25.

## 4 Diweddariad i'r Pwyllgor Cyllid

Cytunodd y Comisiynwyr i llythyr at y Pwyllgor Cyllid i roi gwybodaeth mewn perthynas ag Argymhelliad 7 o Adroddiad y Pwyllgor am waith craffu ar Gyllideb 2023-24, ynghylch gwerthuso effeithiolrwydd y mentrau a gyflwynwyd gan y Comisiwn i liniaru effaith pwysau costau byw ar staff.

## 5 Diweddariad i PAPAC

Ystyriodd y Comisiynwyr wybodaeth i'w darparu i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus mewn dau faes yn dilyn Craffu ar y Cyfrifon ar gyfer 2021-22. Roedd y rhain yn ddadansoddiad o'r prosiectau a weithredwyd fel rhan o'r gronfa brosiectau, a chrynodeb o ganlyniadau'r arolwg staff a'r arolwg pwls. Gofynnodd y Comisiynwyr am rywfaint o eglurhad a chytunwyd ar gynnwys y llythyr at y Pwyllgor.

## 6 Diwygiadau i Gylch Gorchwyl ARAC

Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi nodi newidiadau yr oedd am eu gweithredu i'w Gylch Gorchwyl. Cytunwyd ar y newidiadau, ynghyd â'r cytundeb ar gyfer gwneud newidiadau i enwau teitlau swyddi/cyrff y cyfeirir atynt yn y ddogfen yn ôl yr angen.

## 7 Papurau i'w nodi:

7.a Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) 13 Chwefror

Nododd y Comisiynwyr y diweddariad arferol am gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a ddarperir i'r Comisiwn.

7.b Diweddariad y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb o benderfyniadau recriwtio a ddarperir fel mater o drefn i bob cyfarfod o'r Comisiwn.

7.c Nodiadau ar Grŵp Cyswllt Pleidiau'r Senedd 9 Mawrth

Nododd y Comisiynwyr y wybodaeth am gyfarfod 9 Mawrth.

7.d Llythyr ac Ymateb PCS

Nododd y Comisiynwyr yn ffurfiol y llythyr at y Llywydd gan Undeb y PCS ar gyfer staff y Comisiwn a'r ateb. Dosbarthwyd y ddau lythyr i Gomisiynwyr y tu allan i gyfarfodydd.

7.e Diweddariad ar Adleoli Swyddfeydd y Gogledd

Nododd y Comisiynwyr gynnydd y prosiect i adleoli cyfleusterau a gwasanaethau Comisiwn y Senedd a ddarperir yn swyddfa Bae Colwyn i swyddfa yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Sarn Mynach (Cyffordd Llandudno).

## 8 Unrhyw Fater Arall

Materion yn ymwneud â chwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn – cyfeiriodd dau Gomisiynydd at faterion a godwyd yn ystod Cwestiynau Llafar i'r Comisiwn ar 17 Mai. Roedd

y rhain yn ymwneud â hawliau gwyliau blynyddol i staff y Comisiwn a gwelededd gwybodaeth am y gefnogaeth y mae'r Comisiwn yn ei darparu ar gyfer staff y Comisiwn a staff yr Aelodau sy'n cael profiad o aflonyddu.

Yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf roedd Comisiynwyr wedi cytuno ar gynnwys y Memorandwm Esboniadol, a llythyr eglurhaol ar gyfer y Pwyllgor Cyllid, yn ymwneud â'r Gyllideb Atodol.